Creu Atgofion

Thema'r pecyn hwn yw tecstilau ac mae'n cynnwys gwrthrychau atgofion sy'n gysylltiedig â phatrymau domestig a thecstilau wedi'u gwneud â llaw. Fe'i lluniwyd mewn cydweithrediad â'r artist a'r printiwr Tara Dean https://taradean.co.uk ac mae'n cynnwys deunyddiau a syniadau gweithgareddau sy'n defnyddio technegau printio syml i greu cardiau ac addurniadau wedi'u gwneud â llaw.

Cewch y gweithgareddau hyn yn unrhyw drefn y dymunwch.
Cewch ychwanegu eich syniadau eich hun a dilyn atgofion eich trigolion a'u syniadau creadigol gan ddefnyddio'r pecyn fel man cychwyn.

Gellir addasu pob un i fod yn weithgareddau grŵp neu weithgareddau un i un.
Mae'r pecyn yn cynnwys rhestr y deunyddiau a'r adnoddau a gynhwysir.
Rhai syniadau ac arweiniad i'w dilyn os dymunwch.
Gobeithiwn y gwnewch chi fwynhau!
Ac edrychwn ymlaen at glywed eich barn a sut medrwn ni wella'r ddarpariaeth

Cysylltwch â
tickylowe@makingsensecic.org.uk

Casgliad atgofion – 'doilies' les, ffabrig â phatrwm, delweddau dyluniadau ffabrig

Deunyddiau ar gyfer gwaith creadigol
Llungopïau 'doilies' les
Cardiau ar gyfer printio arnynt
Amlenni
Papur
'Doilies' papur
Gwlân / llinyn
Darnau les
Inciau printiau
Rholiwr
Glud
Haenau Polystyren
Clai
Gwelltyn

Syniadau gweithgareddau

Sesiwn atgofion
Doilis les hynafol, samplau ffabrig, dyluniadau tecstilau
Mae agor a dadbacio'r blwch hwn yn ffordd dda o ddechrau sesiwn.
Gall rhannu rhai o'ch atgofion eich hun ysgogi trafodaeth.
Yn aml mae gennym ni atgofion melys o ddysgu gwnïo neu grosio ac efallai y bydd eich trigolion wedi gwneud doilis les eu hunain neu'n cofio aelod o'r teulu'n eu gwneud nhw.
Gallech ychwanegu gwrthrychau eraill y gellid dod o hyd iddyn nhw mewn bocs gwnïo, er enghraifft, bocs o fotymau, bachau crosio a gwniaduron.

Taflenni lliwio – llungopïau doilis les
Gellir eu defnyddio fel taflenni lliwio amgen

Cardiau printio

Byddwch angen y canlynol o'r pecyn – haenau polystyren, ffyn i wneud pantiau yn y polysteren, rholiwr ac inciau, papur i ymarfer arno a chardiau. Unwaith rydych chi wedi creu patrwm medrwch ei ddefnyddio i wneud llawer o brintiau!

Marciwch neu lunio patrwm yn y polystyren efo gwelltyn neu ffon



Rholiwch ychydig o inc yn gyfartal ar y patrwm ar y polysteren

Rholiwch ychydig o inc yn gyfartal ar y patrwm ar y polysteren

Rhowch y polysteren ar bapur neu gerdyn gyda'r ochr ag inc arno ar i lawr



Pwyswch y cefn i lawr gyda rholiwr glân neu lwy bren

Codwch y cyfan ymaith i ddatgelu eich print!

Addurniadau clai

Byddwch angen y clai o'r pecyn, gwelltyn a darnau les.
Hefyd byddwch angen mat neu liain bwrdd, torwyr bisgedi a rholbren.

Rholio darn o glai gan ddefnyddio'r rholbren neu eich rholiwr
Defnyddio torrwr bisgedi neu gynhwysydd plastig i dorri siapiau
Defnyddio'r gwelltyn i wneud tyllau fel y medrwch hongian yr addurniadau pan fyddant yn sych.
Gosod darnau o linyn, gwlân neu les ar y siapiau clai
Rholio drostynt yn ysgafn
Tynnu'r gwrthrychau ymaith i ddatgelu argraffiadau hardd!
Gellir gadael y clai i sychu'n naturiol ac yna eu paentio a'u defnyddio fel addurniadau

Collage clytwaith – gwaith grŵp neu unigol

Torri unrhyw brintiau sbâr, doilis a llungopïau, i greu eich *collage* unigryw eich hun.

Llywodraeth Cymru Welsh Government
CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND